

Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
Dydd Mercher, 10 Rhagfyr 2014

Amser y cyfarfod:
13.30

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Agenda

(237)v2

1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth (45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

[Gweld y Cwestiynau](#)

2 Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus (45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

[Gweld y Cwestiynau](#)

3 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch ei ymchwiliad i'r cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yma ar weithredu Cynllun Cyflawni ar gyfer Cancer Llywodraeth Cymru (60 munud)
NDM5648 David Rees (Aberafan)

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y cynnydd sydd wedi'i

wneud hyd yma ar weithredu Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser Llywodraeth Cymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Hydref 2014.

Nodyn: Gosodwyd ymateb y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Rhagfyr 2014.

Dogfennau Atodol

[Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Ymateb Llywodraeth Cymru](#)

4 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)

NNDM5636

Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)

Mick Antoniw (Pontypridd)

Alun Ffred Jones (Arfon)

Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cefnogi egwyddorion y Bil Cymorth i Farw.

Mae'r Bil Cymorth i Farw ar gael yn:

<http://services.parliament.uk/bills/2014-15/assisteddying.html>

(Saesneg yn unig)

5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

NDM5654 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi, o dan y Rhaglen Lywodraethu bresennol, fod Llywodraeth Cymru wedi methu o ran ei hamcanion allweddol i gyflawni dros bobl Cymru.

2. Yn gresynu at y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi methu â chyhoeddi amserlen gyflawn ar gyfer Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar ddechrau'r Cynulliad hwn; a

3. Yn galw ar y Prif Weinidog i nodi ei bumed flwyddyn yn y swydd drwy gyhoeddi amserlen ar gyfer cyrraedd targedau ei Lywodraeth o ran:

a) perfformiad y GIG;

b) perfformiad addysgol Cymru yn erbyn safonau rhyngwladol megis PISA; ac

c) gwelliant mewn perfformiad economaidd ledled Cymru.

Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru ar gael yn:

<http://wales.gov.uk/about/programmeforgov/?lang=cy>

Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:

Gwelliant 1 – Elin Jones (Ceredigion)

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i sicrhau bod gan Gymru set lawn o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol cyfredol ar gyfer yr economi.

6 Cyfnod Pleidleisio

7 Dadl Fer (30 munud)

NDM5647 William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Sicrhau dyfodol ffermio yng Nghymru

Yr hyn y gall Cymru ei ddysgu wrth ei phartneriaid yn yr UE i sicrhau bod y genhedlaeth nesaf o ffermwyr yn gallu cael mynediad i dir, adeiladu eu busnesau a manteisio'n llawn ar gronfeydd datblygu Ewropeaidd.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 13 Ionawr 2015